"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1875. [RHIF 25.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Duwioldeb Sylweddol	1
Gair o ochr Tyndall	6
Ychydig ymddyddan yn nghylch y Dall	9
Thomas Stephens	13
Paham yr ydym yn Undodiaid?	17
A ellwch chwi Fforddio?	19
Offeiriad ar Undodiaeth	20
Mab Morgan Jones a'r Basged Hoelion	21
Congl yr Holiedydd	22
Marwgofion	23
Priodasau	24
Barddoniaeth	24

Pris Tair Ceiniog

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1875. [RHIF. 25.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DUWIOLDEB SYLWEDDOL.

CYMMER gweithrediad cyfreithlon a pherffaith yr elfen grefyddol le, pan y bodola mewn undeb cydgordiol â rheswm, cydwybod a serch. Y pryd hwnw, nid casineb, ac nid ofn ydyw, ond cariad gerbron Duw. Cynnyrcha y dadblygiad prydferthaf o'r natur ddynol—yr oes euraidd, Eden dlysaf bywyd, teyrnas nefoedd. Ei Duw ydyw Duw Gallu, Doethineb, Cyfiawnder, Cariad a Santeiddrwydd Anfeidrol, Ffyddlondeb iddo ei hun; ac mor ddymunol ydyw cael ein derbyn a chael ein cofleidio rhwng y fath freichiau! Yr oll a geisia ydyw cadw y ddeddf a ysgrifenodd Ef ar y galon, i fod yn dda, i wneyd da, i garu dynion, i garu Duw. Gall gymmeryd ffurfiau, gweddiau, haerdybiau, seremoniau, offeiriaid, temlau, Sabbothau, gwyliau, ac ymprydiau, ïe, aberthau os myn, fel cyfryngau, nid gorpheniad neu ddiweddglo,—arwyddion neu amlygiadau o syniad, ac nid rhywbeth yn ei le. Ei sylwedd ydyw, cariad at Dduw; ei moesoldeb, cariad at ddynion; ei theml, calon bur; ei haberth, bywyd duwiol. Y dyben yr amcana ato ydyw, uno dyn â Duw, nes y meddylia feddwl Duw, yr hyn yw gwirionedd; teimlo teimlad Duw, yr hyn yw cariad; ewyllysio ewyllys Duw, yr hyn yw y cywir tragwyddol; ac felly yn cael Duw yn yr ystyr hono nad ydyw Efe yn mhell oddiwrth un o honom, ac yn dyfod yn un ag Ef, ac felly yn cyfranogi mewn ystyr o'r natur ddwyfol. Y cyfryngau i gyrhaedd yr amcan goruchel hwn ydynt, ddifodiad neu ddiddymiad mewn dyn o bob peth ag sydd yn groes i'r ddeddf ddwyfol —i ufudd-dod perffaith i Dduw, modd y siarada mewn rheswm, cydwybod a serch. Arweinia drwy ufudd-dod bywiog i ymddiriedaeth drylwyr, cariad perffaith, i gydgordiad cyflawn rhwng y dyn meidrol a'r Duw Anfeidrol, ac ewyllys dyn yn cydymuno ag ewyllys yr Hwn

sydd oll yn oll. Yna y mae ffydd a gwybodaeth yr un peth, ac nid yw rheswm a dadguddiad yn ymryson. Dymuniad a dyledswydd yn myned law yn llaw, ac yn gwasgar blodau ar hyd llwybrau dyn. Y mae dymuniad wedi dyfod yn ddyledswydd, a dyledswydd yn ddymuniad. Y mae yr Yspryd Dwyfol fel pe yn ymgnawdoli yn y dyn. Y mae dirgelwch y byd yn cael ei egluro. Perffaith gariad a fwrw allan ofn. Yna nid yw crefydd yn hawlio ffurfiau neu ddulliau neilldnol ac arbenig o feddwl. Y mae arddwriaeth y dyn yn santaidd fel ei weddi, ei fara beunyddiol fel mwg ei offrwm, ei gartref yn gyssegredig fel ei deml, ei ddydd gwaith a'i Sabboth y naill fel y llall yn ddydd Duw. Ei offeiriad ydyw yr yspryd santaidd sydd o'i fewn. Ffydd a gweithredoedd ydynt ei gymdeithion. Nid ydyw yn aberthu rheswm i grefydd, na chrefydd i reswm. Brawd a chwaer ydynt, yn trigianu yn nghyd mewn cariad. Bywyd cydseiniol a phrydferth, yn cael ei dywys gan gyfiawnder, ei lenwi i fyny hyd yr ymylon â gwirionedd, a'i swyno gan gariad at ddynion a Duw,—dyma y gwasanaeth a ddyry y dyn duwiol i Dad pawb oll. Nid ydyw crediniaeth yn cymmeryd lle bywyd. Nid ydyw gerwinder mympwyol a gwamal yn gwneyd iawn dros unrhyw ddyledswydd a adawyd heb ei chyflawni. Y mae yn caru crefydd fel priodferch, er ei mwyn ei hun, ac nid er mwyn y cyfoeth a ddug. Gorwedd yn isel yn llaw Duw,—y mae anadl y Tad arno. Os daw llawenydd i ran y dyn hwn, llawenha yn ei oleuni rhosynaidd. Nid yw ei gyfoeth, ei ddoethineb a'i allu iddo ei hun yn unig, ond i holl blant Duw. Nid oes dim yn eiddo iddo ei hun, os bydd brawd mewn angen mwy nag ef. Y mae yn debyg i Dduw ei hun—yn garedig i'r anniolchgar a'r annhrugarog. Purdeb tuallan, a duwioldeb tufewn,—dyma ei nefoedd bresenol a dyfodol. Ai nid ydyw ei gnawd yn santaidd fel ei enaid—ei gorff yn deml Duw? Os daw gofidiau i'w ran, na allasai rhagwelediad eu rhagflaenu, na nerth eu gorchfygu, na doethineb ysgoi oddiwrthynt, dyoddefa hyny gyda chalon dawel a heddychlawn. Dros bob ogof dywell, a ffau anobaith, teifl gobaith ei enfys, a goleuni bywiol a ddisgyna. Dengys crefydd iddo mai allan o greigiau diffaeth, du, ac anial, cartrefle yr eryr, lle genedigaeth yr ystorm a'r llitheira, o'r hwn y disgynant i ladd a dinystrio,—mai allan o'r clogwyni diobaith hyn y rhed afon bywyd, yr hon sydd yn rhedeg i bawb, ac a lawenha bobl Dduw. Pan yr ysguba yr ystorm a'r llitheira oddiwrtho bob peth sydd anwylaf i obaith marwol, a ydyw yn ddigyssur? O fynor caled bywyd, cynnulliad ychydig lawenydd a llawer trallod, genedigaeth a marwolaeth, gwenau a gofid,—allan o hyn, meddaf, ffurfia iddo ei hun gerf ddelw brydferth o dawelwch crefyddol. Saif yn wastadol yn ei ymyl, gyda gwen boddlonrwydd nefol ar ei gwefusau, a'i bys yn cyfeirio i'r wybren. Mae y dyn gwir grefyddol, yn nghanol holl adfydau amser, yn cadw gwyneb siriol, ac yn meddu calon heddychlawn. Felly yn myned allan a dyfod i mewn yn nghanol profedigaethau y ddinas, dirboenau yr haint, anfadwaith y gormeswyr creulawn, saif yn barhaus yr un. Gall y fath un ddyoddef caledi, gall sefyll yn unig a bod yn foddlongar fel craig yn nghanol y tonau, yn unigol, ond ansym-

mudol; o'i amgylch gall yr ychydig neu y lluaws ysgrechian eu hoergri, neu ubain eu dadwrdd, enllibo neu gablu. Beth ydyw hyn oll iddo ef ond crawciad y môr-aderyn o gylch y gareg unig a dwfn? Gall heidiau o gylion haf a chacwn trahaus ymosod ar ganghenau derwen; ysgydwant ddalen, neu plygant frigyn gyda'u hunol bwysau; gallai eu murmur aflawen, mewn sefyllfa arall, ddychrynu y defaid a borant ar y ddol; ond yma daw yn sibrwd esmwyth a thawel. Unant â sisial gwyllt y dail, a chwyddant ganiadaeth chwaog y pren; ond ni wnant iddi gynnyrchu yr un fesen yn llai. Nid yw yn ofni yr un drwg. Duw yw ei arfogaeth yn erbyn tynghedfen. Teimla yn llawen yn nghanol ei brofedigaethau. Cana Jeremiah Salmau yn ei ddaeargell, a Daniel a weddia dair gwaith y dydd a'i ffenestri yn agored, modd y geill pawb glywed, a throsglwydded Nebuchadnezzar ef i'r llewod os myn; Luther a ä i'r Cyngrair yn Worms, pe y gwlawiai elynion am naw diwrnod yn olynol, "a phe bai y cythreuliaid can amled à'r llechau ar benau tai." Gwel Stephan y merthyr Dduw yn y cymmylau. Ymogonedda y sant ar yr arteithglwyd, yn y tân y mae e'n gyneu. Ie, Paul, yn hen wr wedi ei adael gan ei gyfeillion, ei brofi gan beryglon fwy na mwy, yn dysgwyl yn feunyddiol am farwolaeth arswydlawn, a eistedda yn foddlongar yn ei ddaeargell. Erys yr Arglwydd yn ei ymyl, a dywed, "Nac ofna, Paul; wele yr wyf fi gyda thi hyd ddiwedd y byd." Gall y sant heddychol ddweyd, "Gwn pwy a wasanaethais. Nid oes ynwyf yspryd ofn, ond yspryd llawenydd. Yr wyf yn barod i'm aberthu." Mae y fath brofedigaethau yn profi yr enaid, modd y profir aur. Derfydd y sorod yn y tân, ond y metel pur a ddaw allan yn ddysgleiriach o'r fflamiau. Beth ydyw i'r fath ddyn gael ei ffrewyllu, ei adael, a'i enw fyned yn ddiareb, a'i gyfrif fel sorod y byd? Mae y peth hwnw yn ei feddiant a edrych i lawr ar filiynau. Er ei fwrw allan, nid yw mewn braw; wedi ei adael, ond nid un amser yn teimlo yn unig. Araf a thyner y daw enaid ffydd i'r dyn. Gwyr fod llygaid yr Anfeidrol yn sylwi arno, ac mewn buddugoliaeth wylaidd dywed, "Nid wyf yn unig; yr wyt Ti gyda mi." Dichon i serchiadau moesol beidio à'u cynghanedd, ond llefara yr Anfeidrol ddyddanwch wrth ei enaid rhy ddwfn a rhy ddwyfol i eiriau i'w gosod allan. Beth os na fedda haul serch dynol i'w loni? ac i gerddoriaeth felus cydymdeimlad dynol ddiflanu gerbron cabledd annghydseiniol ei gyd-ddyn? Dywed, "Etto mi a obeithiaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth." Y mae yn dda i ddynolryw fod Duw yn awr ac eilwaith yn codi i fyny wron yr enaid, a'i osod mewn profedigaethau chwerwon, yn *front* y frwydr, a'i ategu yno, modd y gallwn wybod y fath uchel fonedd sydd mewn dyn, a pha mor agos iddo yw Duw; ac i ddangos y mawredd hwnw yn y dyn crefyddol, ni raid ond ceisio er cael allan, nad yw ei dosturi yn terfynu gyda chrynedigaethau ei gnawd, ac y medr y gwron hwn derfynu ei anadl gyda, "O Dad, maddeu iddynt." Y mae dyn yn dwyn tebygolrwydd i ddyn, a dyn yn fesuriad dyn yn mhob man. Nid oes dim a fedr cnawd a diafol osod yn eu cynddaredd, nad all yr Yspryd Glân ei ddwyn yn ei heddwch annghymharol. Y mae celfyddyd y poenydiwr yn llai nâ natur

enaid y dyoddefydd. Y mae holl fygythiadau yr oll a eisteddasant yn nghadair Moses, neu a ddringasant i fyny hyd at y Messiah, cynddaredd y dirmygwr, llid y drwgnwydus, digter y teyrn, a rhuad ei fyddinoedd,—nid yw yr oll o hyn i enaid crefyddol ond hustingiad gwibed o gylch hen dderwen uchelfrydig, fyddo wedi planu ei gwreiddiau am ganrifoedd yn y ddaear. Nid oes dim yn tycio yn erbyn gwirionedd. Mewn rhai personau y mae crefydd yn gynnydd parhaus. Y maent bob amser mewn heddwch a chydgordiad â Duw. Yn ddystaw a diarwybod, fel y balmwydden unionsyth, tyfant i fyny i fesur dyn. Iddynt hwy y mae rheswm a datguddiad o'r un genedigaeth. Y maent wedi eu geni yn seintiau,—cyn-frodorion y nefoedd. Nid oes gagendor rhwng eu syniad am fywyd a'r modd y gweithiant ef allan,—mae y naill yn cyfateb y llall. Ond ereill a ymunant â llynges arfog pechod, ac yn greithiog drostynt gan glwyfau, wrth wneyd brwydr ddiddiolch yn mintai y gwahangleifion. Cyn y daw y dynion hyn yn grefyddol, rhaid bod cyfnewidiad—cyfnewidiad eglur a dwfn, a chyfnewidiad a gofir. Mae y seintiau sydd wedi bod yn bechaduriaid mawr yn dweyd wrthym am yr ymdrech a'r frwydr galed a gymmerodd le rhwng y cnawd a'r yspryd. Y mae fel pe bai y diafol a'r archangel mewn ymrysonfa. Priodol y dywed John Bunyan,—"Ymladdodd y diafol â mi am wythnosau meithion, a minau a'r diafol." Pe y cymmerid llam dros raiadr Niagara, ac aros tuag hanner y cwymp, a thrwy symmudiad priodol adesgyn, nid rhywbeth dibwys fyddai hyny, ac nid yn fuan y gellid dileu adgof y fath weithred ofnadwy o fawreddog o'r meddwl. Mae y fynedfa yma o bechod i waredigaeth, yr ail-enedigaeth yma o eiddo yr enaid, fel ei gelwir, yn un o luaws dirgeledigaethau dyn. Cyferfydd dwy elfen yn y gydwybod—nacaol am yr hyn a aeth heibio, a chadarnhaol am y dyfodol. Y mae braw a gobaith, edifeiriwch a ffydd, yn rhuthro yn nghyd, a'r eiliad hono cychwyna bywyd newydd. Mae y cymmeriad yn graddol gynnyddu dros glwyfau pechod. Gyda thraed yn gwaedu, dadsenga y dyn ei lwybr; ond cyrhaedda yn y diwedd gopa mynydd bywyd, a syna yn aruthr at y llwybr gwyrgam a niweidiol a adawodd ar ol. Oni ellir dweyd mai crefydd ydyw purydd a choethydd mawr y byd,—ei seren ddigynhwrf na wna byth fachlud? A ydyw yn angenrheidiol dweyd fod holl natur yn gweithredu er ei mwyn,—fod pob peth mud a phob peth byw fel pe yn adsain llais Duw,—"Byddwch berffaith?" Fod natur, yr hon ydyw yr *allanol* o Dduw, yn ffafrio crefydd, yr hon yw y *mewnol* o ddyn, ac felly y mae Duw yn gweithio gyda ni. Yr oedd y cenedloedd eilun-addolgar yn wybyddus o hyn ganrifoedd a chanrifoedd yn ol. Gwyddent mai crefydd, yn ei hansawdd wirioneddol, a greodd ddedwyddwch a llesiant penaf a dyfnaf dyn. Gall Socrates, Seneca, Plutarch, Antoninus, a Fenelon ddywedyd hyn wrthym. Y mae crefydd yn deilliaw oddiwrth yr hyn sydd gryfaf, dyfnaf, a mwyaf prydferth a dwyfol. Nid yw yn gosod llaw annghelfydd ar enaid na synwyr, nac yn condemnio un gynneddf fel rhywbeth isel a diwerth. Ni esyd derfynau i reswm ond gwirionedd—dim i serch ond cariad—dim i chwenychiad ond dyledswydd—dim terfynau i'r enaid ond per-

ffeithrwydd ; ond yn wir ni ellir galw y rhai hyn yn derfynau, ond yn hytrach gellir eu galw yn freinlen o ryddid annherfynol.

Ni ellir amheu nad oes llawenydd yn cael ei fwynhau yn llwyddiant dyfeisiau daearol. Y mae llawenydd i'r cybydd pan y bydd yn diwallu ei ddwylaw ysfaol â golud. Y mae llawenydd i'r ynfyd-ddyn pan y try ei hap-chwareu yn llwyddiant. Ond beth ydyw ? Llenwir ei ddymuniadau, ond y mae culni a gwagder yn treiddio i'w enaid. Y mae hawddfyd mewn gwledda ar lawnder y ddaear,—y dilledyn yn yr hwn y mae Duw yn cuddio dysgleirdeb ei wyneb. Y mae hawddfyd yn ei fod yn cael ei lenwi â pherarogl y blodau amryliw, lleisiau melodus yr adar, sibrwd y gwenyn, rhuadau yr eangfor, murmur yr awelon balmaidd, swn treigliadau y ffynnonau, arucheledd y bryniau tragwyddol, gorwychder y goedwig anwar, prydferthwch y mynyddoedd cribog, ceinder rhian y boreu, dillynder mamol yr hwyr, rhwysg arddunol cuddiedig y nos,—cydymdeimlad dystaw natur, mor deg a phrydferth ydyw ! Y mae llawenydd, oes yn ddiamheuol, y mae hawddfyd i feddwl athrylithfawr, pan y bydd syniadau yn rhuthro arno, fel haul hirddydd haf yn rhwygo y cwmmwl; pan y bydd cronfa o feddyldrychau yn gwthio eu hunain drwy ei enaid, fel troellenau cydser o flaen llygad angel ; pan y bydd syniadau arddunol a geiriau llosgadwy yn ymwthio i'r galon ; pan y bydd natur yn dadlenu ei gwirionedd dirgel, ac i ryw ddeddf fawr dori allan ar unwaith ar feddwl rhyw Newton, a'r tryblith yn diweddu mewn goleuni; pan y bydd awr ei ysprydoliaeth, a llawenydd a hawddfyd ei athrylith yn dyfod arno, dyna y pryd y bydd i'r nefoedd blentyn yma deimlo hawddfyd a phleser duwiol. Dyma gydymdeimlad a gwirionedd. Y mae gwynfyd uwch a mwy digynhwrf pan y bydd calon yn ymddiddan â chalon, pan y bydd dau enaid yn ymglymu fel casgliad gwlith y boreu ar y rhosyn ; ac er mai o'r braidd y cyffyrddant â'r blodeuyn, etto bydd eu cronellau bychain yn ddrych i weled y nefoedd uwchben ; pan y bydd cariad perffaith yn trawsffurfio dau enaid, gwrryw neu fenyw, y naill i ddelw y llall ; pan y cura un galon mewn dwy fynwes, un yspryd yn siarad gyda thafod rhanedig, pan bydd yr enaid yn ffraeth a hyawdl yn llygaid naill y llall,—y mae gorlawenydd dwfn a siriol, calon lawen ac arosol, yn y teimlad cyfeillgar, dirgeledig yma, gydag enaid cydrywiol, ag sydd yn gosod cywilydd ar gydymdeimlad oeraidd natur, ar hawddfyd perlesmeiriol athrylith, yr hwn nid yw ond o fyrbarhad, hyd y nod yn ei awr uwchaf a gwresocaf. Ond y mae llwyddiant crefydd yn fwy nâ phob un ac nâ'r oll o'r pethau hyn. Mae yr ymddibyniad dyddan sydd yn dyfod ar y dyn, y teimlad o ymddiried, gorphwysfa gyda Duw, heddwch tra ragorol yr enaid, y cydgordiad cyffredinol, yr annherfynol oddifewn,—y mae hyn, meddwn, yn llawenydd na fedr geiriau ei osod allan. Yr hwn sydd yn teimlo, efe yn unig a wyr. Gormod gorchwyl ydyw i seraph roddi darnodiad cywir o'r llawenydd, hyd y nod pe cyffyrddai ei wefusau â thân. Yn adeg ymweliad crefyddol o eiddo y bywiol Dduw, nid ymddengys fod yno un meddwl gwahanadwy, ond llanw cyffredinol bywyd yn gweithio drwy yr enaid. Mae y syniad o hono ei hun wedi myned heibio. Damwain fechan

ydyw bod yn frenin neu ddrelyn, rhiant neu blentyn. Y mae y dyn duwiol yn un â Duw, yr hwn sydd oll yn oll. Nid yw hyd y nod prydferthwch natur, na hawddfyd athrylith, nac anadliadau dymunol calonau cydrywiol,—nid ydyw y naill na'r oll yn gyfartal i lawenydd yr enaid crefyddol ag sydd mewn undeb â Duw. Mae y llawenydd dyfnaf yma, yn rhoddi swyn ychwanegol i'r bendithion blaenorol. Mae natur yn myned o dan ffurf-newidiadau newydd. Dywed traddodiad, pan y disgynodd goleuni yr haul ar gerf-ddelw Memnon iddo ddeffroi cerddoriaeth yn y fynwes gareg hono. Y mae crefydd yn gwneyd yr un peth â natur. Yn Natguddiad Ioan, saif angel yn yr haul,—y seraph yn ymledu dros bob blodeuyn, a Duw yn siarad yn mhob glaswelltyn bychan a addurna fynydd creigiog. Yna y mae hyd y nod athrylith ei hun yn cael ei rhwymo i hawddfyd a dedwyddwch mwy a rhagorach. Y mae ei syniadau yn llewyrchu yn fwy tanbaid, wedi eu gosod yn ngoleuni crefydd, brawdgarwch, a chariad,—y maent yn annhraethadwy. Y mae dyn yn caru Duw tra y mae yn caru ei gyfaill. Dyma y llawenydd a ddyry crefydd—gorphwysfa ddiddiwedd bywyd tragwyddol. Ni ddaw drwy ddygwyddiad. Y mae yn eiddo y rhai a geisiant ac a iafuriant, a lafuriant ac a geisiant. Nid atelir ef oddiwrth neb, fel rhoddion ereill. Nid yw natur yn dweyd ond ychydig wrth y byddar, y dall, a'r diddysg. Nid oes gan bob dyn athrylith, ac nis gall gyfranogi o'i phleserau. Ychydig ddynion a ddichon gael allan gyfaill ag sydd yn bob peth iddynt. Ond y mae y dedwyddwch crefyddol yma a nodir genym, y dyfnaf, y gwirioneddolaf, y byth barhaol, y cydymdeimlad â Duw,—y mae hwn, meddwn, yn gorwedd o hyd cyrhaedd i'w holl blant.

T. P.

GAIR O OCHR TYNDALL.

[Mae'n hyfrydwch genym roddi lle i'r erthygl ganlynol ar gais cyfaill. Ymddangosodd yn *Y Drych*, papyr America, am Rag. 10, 1874.—Gol.]

Llawer iawn o siarad ac ysgrifenu sydd y dyddiau hyn yn nghylch anffyddiaeth. Dyma un o bynciau penaf y dydd. A byddai yn dda iawn i lawer o honom gofio fod

DAU FATH O ANFFYDDIAETH.

Un math sydd yn cynyddu yn gyflym yn ein hoes yw yr amheuaeth a'r anngrediniaeth sydd yn ffynu yn mysg dynion ymofyngar a deallus o berthynas i hen ddaliadau crefyddol, croes i reswm a synwyr cyffredin a goleuni y Gwyddorau. Mae miloedd ar filoedd yn awr yn amheu, a mwy nag amheu, llawer iawn o erthyglau ac athrawiaethau a ystyrid er's llawer o flynyddau bron yn ddwyfol ac anffaeledig.

Mae rhai o ddaliadau mwyaf poblog yr eglwysi a alwant ei hunain yn "Iawn-ffyddol" yn cael eu hannghredu gan filoedd o aelodau y cyfryw eglwysi eu hunain, a chan lu mawr o'r dynion deallus tuallan iddynt. Mae y newyddiaduron mwyaf poblog yn America yn lled gyffredin yn llawn o'r anffyddiaeth hwn. Hyd y nod y newyddiaduron *crefyddol* mwyaf poblog, megys y "*N. Y. Independent*" a'r "*Christian Union*" a goleddant yr anffyddiaeth hwn. Er enghraifft, yr oedd ysgrif faith yn y "*Christian Union*" yn ddiweddar gan weinidog Cynnulleidfaol orthodox, ac un o olygyddion y papyr hwnw, yn tystio mewn geiriau plaen mai "*slander* ar Dduw" yw yr athrawiaeth o "*Boenau diddiwedd.*" Gwir fod yr anffyddiaeth hwn yn cael ei goleddu gan lawer o bobl ddrwg iawn, a llygredig eu bucheddau. Ond y mae yr un mor wir fod yr anffyddiaeth hwn yn cael ei goleddu hefyd gan filoedd o'r bobl ardderchocaf eu cymmeriad, sydd heddyw ar y ddaear.—Coleddir ef gan rai o'r Seneddwyr mwyaf dilwgr; gan lawer o'r prif wyddonwyr a beirdd, ac awduron a phregethwyr penaf ein hoes; a chan filoedd o'r rhai mwyaf hynaws eu hyspryd, a mwyaf rhinweddol eu bucheddau sydd heddyw yn fyw. Mae dynion fel Lincoln a Sumner, fel Bryant a Whittier, fel Tyndall a Spencer, fel Prof. Swing a Robert Collyer, a merched fel Florence Nightingale a Harriet Beecher Stowe, a chanoedd lawer o'r dosparth dysglaer yna, yn coleddu yr anffyddiaeth hwn. Y mae yn prysur ddyfod yn beth parchus i'w goleddu. Mae rhai o saint goreu ein hoes o ran dysg a dawn ac yspryd gwir Gristionogol yn coleddu yr anffyddiaeth hwn. Miloedd o ffeithiau a brofant hyn yn anwadadwy.

Y mae anffyddiaeth arall, llawer iawn gwaeth nâ'r math a nodwyd uchod, sef anffyddiaeth calon a buchedd o berthynas i egwyddorion mawrion uniondeb a chariad, a daioni. Pan mae dynion a merched heb gredu digon mewn gonestrwydd, ac mewn purdeb, ac mewn cariad, i'w galluogi i *ymarfer* y pethau hyny—dyna anffyddiaeth o'r fath fwyaf ofnadwy. Ni waeth yn y byd pa mor iawn-ffyddol ac iach ei gredo fyddo dyn, na beth fyddo ei safle eglwysig uchel, os bydd yn gelwyddog, neu yn gomedd talu ei ddyledion, neu yn aflan ei fuchedd, neu yn galongaled, neu yn enllibio ei gymydogion, neu yn ariangarwr crintachlyd, anffyddiwr ofnadwy yw efe; mae yn anffyddlon i egwyddorion penaf crefydd, er y dichon iddo fod yn barod bron i ymladd dros "athrawiaeth iachus." Dyma'r fath o anffyddiaeth sydd yn andwyo cymdeithas. Dyma'r anffyddiaeth a barodd i rai o'n Seneddwyr "uniongred" fod a'u llaw yn y "*Credit Mobilier*" melldigedig. Dyma'r anffyddiaeth a barodd i lawer gwr parchus mewn eglwys efengylaidd fenthyca arian oddiar bobl, a brysio i fod yn fethdalwr (*bankrupt*). Dyma'r anffyddiaeth sydd yn gwneyd llawer pregethwr hidlo gwybedyn o gredo, a llyncu camel o anfrawdgarwch. Dyma'r anffyddiaeth sydd yn gwneyd i lawer o broffeswyr crefydd, a rhai dibroffes hefyd wasgu eu gweithwyr hyd y gyflog leiaf am eu llafur caled, er y gall y cyfryw orthrymwyr fod yn selog dros y Feibl Gymdeithas. O ie! dyma'r anffyddiaeth yn ein heglwysi sydd yn peri i elynion yr Arglwydd gablu, ac yn peri i lawer un feddwl mai "cochl malais" yn aml yw "perthyn

i'r capel." Pe ysgrifenai ein duwinyddion fwy yn erbyn yr anffyddiaeth hwn mewn calon a buchedd, sydd mor amlwg yn ein crefyddwyr, yn lle ysgrifenu eu camgymeriadau amlwg am Tyndall, gwnaent lawer mwy o les i achos gwir grefydd a rhinwedd. Mae'n rhyfedd gweled cynnifer o ddynion call yn gwneyd

CAMGYMERIADAU AM TYNDALL,

gan geisio gwneyd Atheist o'r dyn gwir fawr a duwiol hwnw. Hawdd y gall Tyndall wenu yn dawel ar eu dallineb ofergoelus. Credu y mae Tyndall fod rhyw *Allu Mawr*, bywiol, dirgel, uchlaw dirnadaeth y doethaf o ddynion, yn mhob mymryn o ddefnydd (*Matter*), ac mai y Gallu rhyfedd hwnw, sydd "yn yr oll a thrwy oll," yw Duw. Ac oblegyd fod y "Duw byw" hwn yn mhob mymryn o ddefnydd, nes gwneyd ffurfiau mor ogoneddus o'r defnydd, nad yw defnydd yn beth *marw*, ond ei fod yn llawn o Dduw. Am fod Duw ynddo, y mae yn ymnewid i gynnifer o ffurfiau amryfath, bywiol. Yn awr, onid yw y drychfeddwl yna am Dduw yn barhaus yn mhob mymryn o'r greadigaeth faterol, yn Yspryd byth bresenol yn mhob gronyn o fater, yn llawer mwy gogoneddus ac anwyl nâ'r hen ddrychfeddwl fod Duw yn Fod tuallan i anian, yn sefyll neu yn eistedd draw yn mhell, ac yn dyfod i greu, neu foldio defnydd yn *achlysurol*, yn debyg fel y moldia y *sculptor* ei ddelw o glai yn gynffurf iddo? Mil gwell genyf fi feddwl fod Tad mawr ein Harglwydd Iesu Grist, a Thad pob daioni, yn Yspryd byw parhaus—presenol yn mhob gronyn o'r greadigaeth, na meddwl am Dduw fel *Mechanic* Mawr, ar wahan oddiwrth ei greadigaeth. Da genyf feddwl am Dduw mewn pob llwchyn ac mewn pob mymryn o ddefnydd, yn "Awdwr Trefn" a bywyd, gan weithio *erioed* ac hyd *byth*, i ateb yr amcanion goreu yn a thrwy ei weithrediadau parhaus mewn defnydd. Nid yw Tyndall yn dweyd mai *defnydd yw Duw*, ond fod Duw anfeidrol ogoneddus yn amlygu ei hun i raddau trwy ei bresenoldeb bythol-barhaus mewn defnydd. Nid yw Tyndall hyd y nod yn *Bantheist* heb son am Atheist. Mae hefyd gymmaint yn dduwiolach a rhagorach nâ llu o'i adolygwyr duwinyddol, o gymmaint ag y mae yn amlygu yspryd mwynach, a meddwl a chalon fwy gwir ostyngedig, ac addolgar, a dyngarol nâ hwynthwy. Dyma rai o'i eiriau anwyl, wedi eu bras gyfieithu o'r araeth ddiweddar yn Manchester: Byddaf yn edrych gyda syndod mawr ar y modd y mae mymrynau defnydd yn ymffurfio ac yn adeiladu eu hunain, yn y glaswellt a'r blodau, a moddau ereill; a byddaf yn gofyn i mi fy hun—Tybed nad oes unrhyw Fod na pheth mewn natur a wyr fwy am y materion hyn na mi? A wyf fi yn fy anwybodaeth yn meddu y ddirnadaeth uchaf am y pethau hyn mewn defnydd?

Foneddigesau a Boneddigion, nis gall dyn o fyfyrdodau dwys, byth ofyn y cwestiwn yna iddo ei hun, a chymmeryd credo Atheistiaeth yn atebiad, yr hon gredo y mae mor hawdd gan rai eu briodoli i mi."

Dyna yw *Materialism* Tyndall—mai presenoldeb bythol-barhaus Duw byw yn mhob mymryn o ddefnydd sydd yn peri fod defnydd yn cynnwys "*The promise and potency of every form and quality of life.*" Os

materialist yw y Tyndall deallus, addfwyn, gostyngedig, addolgar, a dyngarol hwn, fy nymuniad a'm gweddi daeraf ddydd a nos yw, am i'r byd gael ei lenwi o *faterialists* bendigedig fel Professor Tyndall.

R. L. Herbert.

YCHYDIG YMDDYDDAN YN NGHYLCH Y DALL.

PENNOD II.—*(Cyflwynedig i Blant.)*

Ni ddaeth Julia at ei mam y noson ganlynol, nac am ddwy noson arall. Ar y pedwerydd, eisteddai i lawr yn unig, ac arosodd am chwarter awr, ac yna neidiai i fyny, ac ymddangosai yn bur ddiamynedd, ac yr oedd ar fyned allan o'i hystafell i chwilio am ei mam, ond ar y foment hono, daeth ei mam i mewn.

"O mam! meddyliais na fuasech chwi yn d'od byth," meddai y ferch fach.

"Paham hyny?" gofynai y fam.

"Addawsoch——" ebe Julia.

"Beth, aros yma am bedwar diwrnod i ddysgwyl am danoch chwi? a addewais i hyny?" gofynai y fam.

"Nage," ebe Julia, "ond carwn pe buaswn wedi d'od. Paham na fuasech chwi yn galw arnaf, mam?"

"O herwydd na ddymunwn beri i chwi fod yn ddedwydd yn fy ffordd i," atebai y fam; "gwyddoch fy mod i yn caniatau i chwi, ar rai prydiau, i chwareu gyda'ch cymmydogion bychain."

"Mawr y caraswn pe na buaswn wedi gwneyd felly," ebe Julia; "yr oedd Mary yn swrth iawn, a thorodd ddwy gadair yn nhŷ fy *noll*."

"A dywedasoch chwithau, gobeithio," ebe Mrs. Jones, "mewn tymher dda, eich bod yn gwybod na wnaeth hi hyny yn fwriadol, ac y gellir eu gwella—eh?"

Gogwyddodd Julia ei phen.

"Edrychwch i fyny, Julia, a dywedwch wrthyf beth a ddywedasoch neu a wnaethoch. Os ydych yn teimlo eich bod wedi ymddwyn yn annghariadus, ac wedi peri gofid i'ch cymmydoges fechan, gellwch, efallai, wneyd iawn am hyny. Gadewch iddi hi gael ar ddeall, nad ydych chwi yn *ddall meddyliol*, ond y gellwch *weled* eich beiau eich hunan, a'u cydnabod."

Dechreuodd Julia wylo; yr hyn a arferai wneyd yn fynych, pan nad oedd ganddi ond ychydig neu ddim i ddweyd drosti ei hunan.

"Ai dagrau edifeirwch, ynte balchder yw y rhai hyna, Julia?" ebe y fam. "Os ydynt yn effeithiau eich bai, cyffeswch hyny i mi; ond os taw effeithiau eich balchder, gellwch fyned ymaith; ni allaf siarad â chwi heno."

Wedi i Julia gael allan fod ei mam yn siarad yn ddifrifol iawn, sychodd ei dagrau, ac edrychodd i fyny i'w hwyneb, a dywedodd yn onest, "Edrychais yn sarug arni, a dywedais wrthi y gwyddai o'r goreu y buasent yn tori; a——dechreuodd Mari lefain."

"Druan o honi:" ebe Mrs. Jones, "drwg iawn genyf iddi ddyfod ar ymweliad at ferch fach mor ddifoes."

"Na fydded yn ddrwg genych, mam," meddai Julia, "ni ddywedaf y fath beth byth mwy. Na fydded yn ddrwg genych," meddai drachefn, pan oedd etto ar dywallt dagrau.

"Wel, Julia, yr ydych wedi dweyd gwirionedd wrthyf."

Gosododd Julia ei breichiau am wddf ei mam, a chusanodd hi. "Na, na," meddai ei mam, "rhaid yw i chwi yn gyntaf peth fyned at Mari, a dweyd wrthi ei bod yn ddrwg iawn genych am eich bod wedi edrych yn sarug arni, a siarad wrthi mewn tôn mor ddigllon; ac yna, os ydych yn dewis, dychwelwch ataf fi."

Aeth Julia yn bur fuan i edrych am ei bonet, ac wedi curo wrth y drws nesaf, cafodd agoriad, ac i mewn yr aeth gyda phob brys. Wedi bod yn absenol o'i thŷ ei hun am o gylch hanner awr, dychwelodd yn gyflym at ei mam, a Mari fach yn ei chanlyn.

"Dyma hi, mam: dywedais wrthi ei bod yn ddrwg genyf, ac y mae hithau wedi maddeu i mi, a charai eich clywed chwi yn siarad wrthym am y dall."

"Y mae iddi bob groesaw," meddai Mrs. Jones, mewn tôn gariadus, "ac yn awr pa le y mae Caroline?"

Cawd Caroline allan yn fuan; ac wedi i Mrs. Jones osod y Beibl ar y bwrdd, eisteddodd y plant o'i hamgylch.

"Onid ydym yn ddedwydd iawn, mam?" meddai Julia; a chan edrych yn ngwyneb ei chyfeilles ieuanc, ychwanegodd mewn tôn orfoleddus, "Mari, onid ydych chwi yn falch fy mod i wedi eich dwyn chwi yma?"

A gwên ar ei gwyneb, cydiodd Mari yn ei llaw; a gwenai Mrs. Jones hefyd, pan welai eu bod yn gyfeillesau mor dwymgalon a gwresog.

"Yn awr," meddai Mrs. Jones, gan agor y Beibl, "a ellwch chwi ddweyd pwy yw y person cyntaf a siaradir am dano yn yr Ysgrythyrau oedd wedi cael ei amddifadu o'i olwg?"

"Gadewch i ni ystyried," ebe Caroline, "tad Jacob."

"Yn mha le mae'r hanes i'w chael?" gofynai Mrs. Jones.

"Yn Genesis," atebai Caroline.

"Ie: fe ddywedir yno, 'A thywyllu ei lygaid fel na welai.'"

"Mam," gofynai Julia, "a oedd yn iawn i Jacob ffugio bod yn Esau?"

"Beth feddyliech chwi eich hunan?" gofynai y fam, "a ydyw yn beth iawn i dwyllo?"

"Ond fe orchymmynodd ei fam iddo wneyd hyny," ebe Julia, "a gwyddoch fod ei henw hi i'w gael yn y Beibl."

"Gwir; ond ni wnaeth hi yr hyn oedd iawn, serch hyn."

"O," meddai Julia, "meddyliwn i fod pob un sydd a'i enw yn y Beibl yn gwneyd yr hyn oedd iawn."

"Nid pob un," ebe ei mam.

"Yna, pa *use* yw y Beibl? Arferwn i gredu taw i'n dysgu ni."

"Felly mae'n bod; ond nid trwy arddangos drwg yn dda."

"Wel," meddai yr holl rai ieuainc, "meddyliem ni fod pobl y Beibl yr hyn oedd dda bob amser."

"Camsyniad yw hyna;" ebe Mrs. Jones, "mae y Beibl yn dywedyd gwirionedd wrthym; dengys i ni natur Duw, a natur dyn, fel y byddom felly i adnadod ein calonau ein hunain, a chael allan pa mor annedwydd y buasem heb drugaredd a gras Duw—caethweision i'n nwydau ein hunain—yn twyllo, ac yn cael ein twyllo."

"Wel," meddai Julia drachefn, "arferwn ni gredu fod holl bobl y Beibl yn ddynion da."

"Felly minau," ebe Caroline, gwyddwn y buasai yn ddrwg i dwyllo hen ŵr dall; ond meddyliwn fod Rebecca yn gwybod ei fod yn iawn i Jacob."

"Na, na, na, fy anwyl ferch," atebai ei mam, "pe buasai y fath feddylddrychau yn wir, dysgai yr hyn sydd ddrwg, yn lle yr hyn sydd dda; yr hyn sydd yn anmhossibl, gan ei fod yn air Duw, cenadwri bywyd! Dengys yr Ysgrythyrau i ni ddyn fel y mae, ac yn mhlith y lluaws ydym yn darllen eu hanes yno, nid ydym yn cael ond un yn unig, "nad oedd twyll yn ei enau, na dichell yn ei galon."

"Yr Iesu oedd hwnw," meddai y plant.

"Ie, fy anwyliaid; ymddiriedwch ynddo Ef, a chanlynwch Ef, yna ni ellwch fyned ar gyfeiliorn."

"Mam," meddai Julia, "addawsoch ddywedyd wrthym am Iesu yn agor llygaid y deillion, onid do?"

"Bid sicr, do," atebai y fam; "ond gadewch i ni fod yn drefnus a rheolaidd gyda'r gwaith. A oes genych chwi rywbeth yn ychwaneg i'w ddweyd o berthynas i Isaac?"

"Na, mam, nid wyf fi yn gofalu ond ychydig am Isaac."

"Paham, fy merch?" gofynai Mrs. Jones.

"Oblegid," meddai Julia, "nid yw ei hanes Ef ddim yn ddyddorol fel eiddo Abraham a Joseph."

"Yr ydym, fodd bynag," meddai Mrs. Jones, "yn cael ein tueddu i gredu ei fod yn ddyn da yn ei deulu; yn cyflawnu ei ddyledswyddau yn dawel, ac yn byw yn ofn Duw. Nid oes genym un hyspysrwydd pa fodd y dygodd y golled fawr o'i olwg; ond cawn ar ymyl y ddalen yn y Bibl, iddo fod yn ddall am yr amser maith o wyth mlynedd ar hugain."

"Paham y gwnaeth Duw ef yn ddall am amser mor faith?" gofynai Julia.

"Nis gallaf ateb eich gofyniad," atebai ei mam; "dichon mai fel fel y buasai iddo ef i fyfyrio ar yr addewidion mawrion oeddynt wedi cael eu gwneyd i'w dad, a'i gadarnhau ynddynt."

"Gallasai feddwl am danynt oll mewn dau neu dri diwrnod," meddai Julia.

"Gwir, gallasai eu cyfrif a'u cofio; ond ni allasai borthi ei enaid anynt. Yr ydych chwi yn rhy ieuainc i ddeall yn drwyadl fy meddwl

—ond gadewch imi drein. Meddyliwch eich bod yn awyddus i feddwl am eich tad; ai dim ond ofni fod y fath berson i'w gael yn unig fuasech?"

"Dywedwn ei fod yn dad anwyl, anwyl," ebe Julia.

"Oni feddyliech chwi am ddim oedd wedi wneyd drosoch?" ebe y fam, "neu eich bod dan rwymau i ymdrechu ei foddio trwy ufuddhau i'w orchymyn?"

"Meddyliwn am y prydnawn y buom yn y Cwmglas," ebe Julia; "pa fodd y dysgodd efe ni i beidr yr afon risialaidd: ac yr ydych chwi yn cofio, mam, iddo fy rhybuddio i, Mari, a Caroline, rhag myned i'r man peryglus hwnw ar bont yr afon. Ni bu mab Thomas David, Bwlchyfaran, bron a cholli ei fywyd; a buasai yn sicr o'i golli, oni buasai i'r ei gymmeryd gafael ynddo wrth wallt ei ben, a'i ddwyn i fyny yn ddiogel; ac yr oedd fy nhad yn falch iawn oblegid ein bod wedi talu sylw i'w arch, a gweithredu yn ei hol."

"Wel," sylwai y fam "dysgodd hyny i chwi pa gymmaint gwerth yw calon ufudd, ac fod ufudd-dod i gais y rhai sydd yn eich caru yn tueddu er daioni. Paham y darfu i chwi ufuddhau i'ch tad? O herwydd eich bod yn ei garu yn fawr; a chawsoch allan trwy brofiad, fod eich cariad tuag ato, a'ch ufudd-dod iddo, wedi eich cadw yn ddyogel. Wrth gweithredu o'n calon fel hyn, yr hwn fyddom wedi ddysgu trwy brofiad, galwn hyny yn ffydd arno. Gallwch yn awr ddeall i raddau, pa fodd y gallasai Isaac fyfyrio yr hyn oll a ddysgwyddodd iddo ef ei hunan, ac i'w dad Abraham, hyd oni fu y meddwl neu yr adgof am addewidion y Jehofah, a'r olwg ar ei ddaioni a'i ddoethineb, dysgu mwy mwy ar ei galon: ac wedi ei gau allan, megys, o'r byd gan ddallineb, y buasai ei amgyffred mewnol yn dyfod yn fwy clir ac eang o'i flaen."

"Ie, mam," ebe Caroline, "a phe buasem ninau yn dwyn i'n cof yr hyn ydych wedi ddweyd wrthym am y dall, hyd oni ddysgai hyny ni i fod yn amyneddgar, pan nad ydym yn cael pob peth wrth ein bodd fel y dymunem: onid myfyrdod fuasai hyny?"

"Yn union felly," atebai y fam; "dyna amcan ein hymddyddan, i fyfyrio a'i gymhwyso atom ni ein hunain, hyd oni fyddo yn ein gwneyd yn ddoethach a gwell. A wyddoch chwi am berson dall arall yn yr Hen Destament?"

"Yr wyf yn meddwl, mam," ebe Julia, "nad oes ond ychydig bobl ddeillion a son am danynt yn y Beibl."

"A ydych chwi," ebe y fam, "yn cofio am un ag y tynwyd ei lygaid ef allan?"

"O, mi wn i, mam," ebe Julia. "Samson, onide? Druan o hono! Ei elynion a dynasant ei lygaid. Mam, a oedd Samson yn ddyn da?"

"Ni allaf ei ganmol, Julia," atebai y fam; "ond perthynai iddo y rhagoriaeth o beidio bod yn eilunaddolwr."

"A ddarfu iddo ef ddwyn dallineb yn dda?" gofynai Julia.

"Nid oedd fel Isaac, yn dyoddef oblegid henaint, neu nifer dyddiau," atebai y fam; "ond yr oedd yn ddyn cryf, a chafodd ei drin yn greulawn gan ei elynion, y Philistiaid, y rhai a'i daliasant ef, ac a

dynasant ei lygaid â gefnynau pres; ac yr oedd efe yn malu yn y carchardy. Llanwyd ef o eiddigedd tuag at ei elynion; ond gweddai i ni gofio nad oedd addysgiadau ac esiampl yr Iesu wedi eu gosod o'i flaen ef. Pe gallasai buasai yn sier o ddial ei lid ar ei elynion."

"Yn mha le yr ydym yn cael hanes am y weithred hon?"

"Yn Llyfr y Breninoedd," meddai yr holl blant.

"Ie," meddai Mrs. Jones. "Ac yn awr y mae yn rhaid i mi eich gadael, i barotoi swper i'ch tad, ac ar ryw brydnawn yn ystod yr wythnos ymddiddanaf â chwi yn mhellach yn nghylch pobl ddall y Testament Newydd; ond cyn myned, dymunaf ddwyn eich sylw at y bennod ddiweddaf yn ail Lyfr y Breninoedd, lle y cewch hanes fod brenin Jerusalem, Zedeciah, wedi cael ei anafu gan elyn creulawn trwy dynu ei lygaid ef. Yr oedd yr adyn truenus wedi annghofio yr Arglwydd, ac yn awr pa fodd y gallai ymgyssuro a chael gorphwysdra? Cafodd ei drin yn arw a chreulawn gan ei elyn; ond, fy anwyl blant, bydded ar gof genych chwi na all un gelyn wir niweidio, am amser maith, y dyn sydd yn ymddiried yn ei Dduw, ac yn ei garu Ef a'r holl galon ac a'r holl nerth. Y mae yn bossibl i ddynion diegwyddor, drwg a chreulawn ddystrywio ei gorff ef, ond y mae ei enaid gyda Duw; ac o herwydd ei fod yn ymddiried ynddo Ef, ac yn cymdeithasu gydag Ef, gall ddweyd yn iaith yr hen broffwyd Habaccuc,—'Er i'r ffigysbren na flodeua, ac na byddo ffrwyth ar y gwinwydd; gwaith yr olew-wydd a balla, a'r meusydd ni roddant ffrwyth; torir ymaith y praidd o'r gorlan, ac ni bydd eidion yn eu beudai: etto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth.' Dichon i golledion y dyn da fod yn boenus ac anhawdd i'r eithaf i'w dwyn; ond yr Arglwydd a'i cynnal ac a'i nertha ef, ac a dry ei dristwch presenol yn orfoledd tragwyddol.

"'Mae Duw trugarog yn y nef,
A'i lygaid Ef yn canfod
Pwy'n fawr ei faich, a blyg yn wan,
I'r ddaear dan ei drallod;
I'w gynnal dan y gormail certh
Mae nefol nerth yn barod.'"

M. B.

THOMAS STEPHENS.

Mae angenrheidrwydd wedi ei gosod ar yr ysgrifenydd i gasglu rhyw ychydig fanylion mewn perthynas i fywyd a gwaith y diweddar Thomas Stephens, o Ferthyr. Ysgrifenodd ef lawer i'r Ymofynydd, yn ei ddydd; a byddai yn beth dymunol iawn pe cawsem ar ei dudalenau fywgraffiad teilwng o'r gwrthddrych gan un ag oedd yn adnabyddus o hono, yn gyfarwydd â'i weithiau, ac yn alluog i werthfawrogi ei athrylith a'i gymmeriad. Ond o'r braidd mae yr ysgrifenydd presenol yn meddu ar un o'r cymhwysderau yma, ac yn y diffyg o honynt, nid

oes ganddo ddim ond gwneyd y defnydd goreu ag y gallo o'r hyn a ymddangosodd yn y newyddiaduron ar ol marwolaeth Mr. Stephens, ac o'i bregeth angladdol gan y Parch. N. R. Williams, sydd newydd ddyfod allan o'r wasg.* Talwyd teyrnged ddyledus o barch i'w goffadwriaeth fel dyn ac fel llenor, gan y rhan fwyaf o newyddiaduron y Dywysogaeth, a chymmerwyd sylw o'i farwolaeth yn rhai o gylchgronau llenyddol Lloegr, megys yr *Academy*, a'r *Literary World*.

Ganwyd Thomas Stephens, yn mhentref Pontneddfechan, Sir Forganwg, yn y flwyddyn 1821. Pan yn ieuanc, treuliodd ryw ddwy neu dair blynedd mewn ysgol yn Nghastellnedd, a gedwid gan y Parch. John Davies, gweinidog yr Undodiaid yno y pryd hwnw, a chyn hyny o Gapelygroes. Dywedir fod Mr. Davies, yn ysgolfeistr rhagorol; a diamheu iddo wreiddio ei ddysgybl ieuanc yn dda yn elfenau gwybodaeth; ond gan mai am amser byr, mewn cymhariaeth, y bu Mr. Stephens yn yr ysgol, a hyny pan yn ieuanc, mae yn rhaid ei ystyried fel *self-taught* a *self-made man*; fel un o'r dynion hyny, nad ydynt yn ychydig ar gofres enwogion yr oesau, sydd wedi gweithio eu ffordd i fyny i safle uchel, yn rhinwedd eu gallu a'u penderfyniad eu hunain. Yr oedd athrylith yr hanesydd a'r beirniad yn enedigol yn Mr. Stephens; a chan nad beth fyddai ei amgylchiadau a'i *surroundings*, byddai'r elfen hono yn sicr o ddangos ei hunan. Mae llawer o awdwyr a llenorion yn cael eu dwyn i fyny o'r cryd yn awyrgylch llenyddiaeth; maent yn ei sugno gyda llaeth y fron, ac ar ol tyfu i fyny, maent yn ei mabwysiadu fel eu *profession*, ac yn meddwl byw arni, er y dichon fod eu cymhwysderau yn gorwedd mewn cyfeiriad arall. Gyda Mr. Stephens yr oedd yn wahanol. Nid oedd dim yn neillduol yn ei amgylchiadau, yn ei ieuenctyd nac wedi hyny, yn tueddu i'w wneyd yn gymmeriad llenyddol. Cafodd yn mhen ychydig amser ar ol gadael yr ysgol ei osod yn egwyddorwas gyda *chemist* a *druggist* yn Merthyr, ac ar ol treulio ei amser, llwyddodd i ddyfod yn olynydd i'w feistr yn ei fasnach, pan yn ieuanc iawn, a dylynodd ei alwedigaeth yn ddiwyd hyd ychydig amser i'w farwolaeth. Felly nid llenyddiaeth oedd ei *brofession*, ac nid oedd ganddo ond ei oriau hamddenol i gysegru i'w gwasanaeth. Ond er fod ei fasnach yn gofyn llawer o'i nerth, ei fedr, a'i amser, etto, ni fu yn rhwystr ar ei ffordd i gasglu gwybodaeth nac i ddadblygu goludoedd ei feddwl. Yr oedd yspryd y peth byw wedi deffro yn ei enaid; yr oedd y *Muse of History* wedi anadlu ei hysbrydoliaeth arno, a phan nad oedd efe feallai yn gwybod ond ychydig am werth y ddawn oedd wedi ei hymddiried iddo, darfu i'r cyfnod auraidd hwnw yn hanes sefydliadau Eisteddfodol y Cymry wawrio i *nurso* ei athrylith yn ei mebyd. Mae yr Eisteddfod yn Nghymru wedi bod yn foddion i ddadblygu athrylith llawer llenor, llawer bardd, a llawer cerddor; a chafodd y fraint o gydnabod teilyngdod, a rhoddi cefnogaeth i'r hanesydd mwyaf craffus a galluog a gododd Cymru erioed, yn mherson Mr. Stephens, o Ferthyr.

---

* "*Merthyr Express*," *Saturday, Jan. 9th*, 1875, "Funeral Sermon on the late Thomas Stephens, Esq., by N. R. Williams.

Rhoddwn yn y man hwn ddyfyniad o hanes ei yrfa lenyddol o'r "*History of Merthyr*," a gyhoeddwyd yn ystod ei fywyd.—"Enillodd ei fuddugoliaeth flaenaf yn 1840, yn Eisteddfodd Liverpool, pan y rhoddwyd iddo y wobr o £5 am "*History of the Life and Times of Iestyn ab Gwrgant, the last Native Lord of Glamorgan.*" Dyma ei ymddangosiad cyntaf yn ymrysonau llenyddol ei wlad; ac fe barhaodd yn ei waith gyda gallu a dyfalbarhad rhyfeddol, gan gymmeryd mewn llaw bob pwnc cysylltiedig a Chymru a'i llenyddiaeth, ac heb ofni hefyd dyfod i gyd-darawiad ag ysgoleigion hynafiaethol enwog ei amser. Yn 1841 enillodd wobr o £10 yn Eisteddfod y Fenni am "*History of Remarkable Places in the County of Cardigan.*" Yn 1845 dyfarnwyd gwobr o £5 iddo yn y Fenni am draethrwd ar "*The Heraldic Poetry of Wales.*" Yr oedd y pwnc yma wedi addfedu ei feddwl er cyrhaedd buddugoliaeth fwy yn 1848. Yn y flwyddyn hono, yn Eisteddfod y Fenni, cynnygiwyd gwobr o £25 yn enw Tywysog Cymru, am y Traethawd goreu ar "*The Literature of Wales during the twelfth and succeeding centuries.*" Ar y testyn hwn yr oedd y Parch. Thomas Price (Carnhuanawc), awdwr *Hanes Cymru* yn gydymgeisydd; ond pan y cododd y diweddar Archddeacon Aberteifi i gyhoeddi ffugenw y buddugwr, dywedodd "Fe ymddengys seren newydd heddyw yn llenyddiaeth Cymru." Cyhoeddwyd y traethawd yma o dan yr enw "*Literature of the Kymry*," ac nid yn unig gwnaed sylw ffafriol arno yn yr *Athenæum*, yr *Examiner*, &c., a chan brif efrydwyr hanes a llenyddiaeth Cymru, ond derbyniwyd ef gyda breichiau agored gan Count Villemarque, Henri Martin, a beirniaid llenyddol ereill yn Ffrainc. Cafodd hefyd yr anrhydedd o'i gyfieithu i'r *German* gan *Professor* Shulz, o Magdeburg; ac mor ddiweddar ag Eisteddfod Chester, yn 1866, talwyd teyrnged o glod iddo gan Matthew Arnold, diweddar Broffeswr Barddoniaeth yn Rhydychain. Yn yr un Eisteddfod, derbyniodd wobr o £5, am "*History of Caerphilly Castle.*" Yn 1850, derbyniodd dair gwobr yn Eisteddfod Rhuddlan, ar wahanol destynau. Yn 1851, gwobrwywyd ef yn Eisteddfodau Caerdydd a Phorthmadog. Yn 1855, rhoddwyd iddo dair gwobr yn Eisteddfod y Fenni—un o honynt yn £70, rhodd y Chevalier Bunsen, am draethawd ar "*The History of Trial by Jury in Wales.*" Yn 1856, rhoddodd Cymdeithas Cymrodorion Merthyr, £10 iddo am draethawd Cymraeg ar "*Sefyllfa Wareiddiol y Cymry,*" yr hwn a gyhoeddwyd yn y *Traethodydd*. Yn 1858, yn Eisteddfod Ddirwestol Caerdydd, dyfarnwyd y wobr o £10 a bathodyn iddo, am Draethawd Cymraeg ar "Lenyddiaeth, Moesoldeb, a Chrefydd y Cymry, mewn cymhariaeth â Chenedloedd cyfagos." Yr oedd ei lwyddiant diweddaf, os caniateir yr ymadrodd, yn fethiant. Ysgrifenodd draethawd ar "Ddarganfyddiad America gan Madoc ab Owen Gwynedd, erbyn Eisteddfod Llangollen, yn 1860. Dyfarnwyd y wobr o £20 a medal, i Mr. Stephens, ond darfu i awdurdodau yr Eisteddfod, ac yn eu plith y diweddar Ab Ithel, atal y wobr, gan fod awdwr y traethawd goreu wedi gwadu y darganfyddiad tybiedig. Profodd yr awdwr i foddlonrwydd ei feirniaid, y gosodiadau canlynol:—(1.) Na adawodd Madog erioed ei wlad ei hun, iddo gael ei ladd yn ei wlad ei hun, a bod bardd o'r enw Llywarch ab Llew-

elyn wedi ei gyhuddo o'i lofruddio. (2.) Nad oes un awgrym o ddarganfyddiad America yn Hanesyddiaeth Cymru, hyd ar ol amser Columbus. (3.) Fod Cymro ieuanc o'r enw John Evans, yn 1798, wedi treulio gauaf yn mysg Indiaid y Missouri, ac iddo gael allan nad oeddent, fel y dywedid, yn Indiaid Cymreig. Cafodd ymddygiad awdurdodau Eisteddfod Llangollen ei gondemnio yn fawr ar y pryd, ac nid oes amheuaeth, na wnaeth lawer o niwed i'r sefydliad Eisteddfodol. Yn hwn, fel yn ei weithiau ereill, yr oedd Mr. Stephens yn gomedd gwagogoneddu ei wlad, trwy dderbyn fel gwirionedd chwedlau beirdd y canol oesau, neu ddyfeisiau ysgrifenwyr a roddent ormod o ffrwyn i'w dychymyg. Fel beirniad craffus, mae yn sefyll yn y radd flaenaf, a pherchir ef, nid yn unig gan ddysgedigion Prydain, ond gan ysgolheigion hanesyddol Ffrainc a Germani, am ei weithiau galluog ac anmhleidiol, ydynt yn cael eu nodweddu gan ddiwydrwydd mawr, gan adnabyddiaeth eang o hanes cenedloedd ereill, gan graffder rhesymegol o'r iawn ryw, a gallu neillduol i ddarganfod a gosod allan y gwirionedd. Prif nodwedd ei waith oedd ymlid ymaith draddodiadau diawdurdod a disail, gwahanu y ffeithiau oddiwrth y chwedlau, ac adeiladu i fyny hanesiaeth y Cymry ar wir sylfaen gwyddor hanesyddol. Mae wedi dangos rhagoroldeb yr Iaith Gymraeg, mae wedi profi pa mor ddyledus yw gwledydd ereill i Gymru am eu sefydliadau. Yn ei weithiau bywgraffyddol, mae wedi dangos hawl y Cymry i sefyll yn uchel yn mhob cangen, ac felly, wedi gosod mawredd Cymru i orphwys ar sylfaen gadarn gwirionedd."

Ei waith diweddaf yw yr erthygl ar "Coelbren y Beirdd," a ymddangosodd yn yr *Archæologia Cambrensis*, am Gorphenaf, 1872. A ganlyn yw y casgliadau y daw yr awdwr iddynt, mewn perthynas i'r goelbren, casgliadau ag y byddai Iolo Morganwg a'r hen hynafiaethwyr yn arswydo rhagddynt:—(1.) Nas gall Coelbren y Beirdd honi rhyw hynafiaeth mawr,ni cheir hi ar feini cerfiedig, nac mewn llawysgrifau. (2.) Iddi gael ei dyfeisio yn nechreuad y bymthegfed ganrif, pan oedd papyr a memrwn wedi cael eu gwahardd i'r Cymry, ac mai y dyfeisiwr, yn debygol, oedd y bardd Gwilym Tew. (3.) Nad oedd yn egwyddor wreiddiol, heblaw yn ei tharddeiriau, ond yn efelychiad o'r llythyrenau Rhufeinig. (4.) Ei bod mewn arferiad cyffredin yn y bymthegfed ganrif, fel y dangosir yn ngweithiau y beirdd, ond ei bod wedi myned allan o arferiad cyn diwedd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg.

Dywedasom ar ddechreu yr ysgrif, fod Mr. Stephens wedi ysgrifenu llawer i'r Ymofynydd, pan dan olygiaeth y diweddar Barch. J. E. Jones, Penybont. Ymddangosodd rhai o'i draethodau gwobrwyedig ynddo o bryd i bryd, megys "Sefyllfa Wareiddiol y Cymry," "Y Madogwys," &c., a chyfranodd lawer o erthyglau ereill gwerthfawr, ar destynau amrywiol. Fe wel y darllenydd *list* o honynt i gyd, ar waelod y ddalen.

I. C.

(*I'w barhau.*)

Gweithiau T. Stephens yn yr Ymofynydd.—1849, Arwyddfeirdd Cymru. 1850, Arwyddfeirdd Cymru. 1852, Cofiant Iolo Morganwg (Seven Articles). 1853, Iolo Morganwg (Ei Nodweddion); Llen-

yddiaeth y Cymry yn y Canol Oesoedd; Menw ab Teirgwaedd; Y Nod Cyfrin. 1854, Y Nod Cyfrin a Myvyryddiaeth; Llyfr Genesis a doethineb yr Aifft. 1859, Madogwys; Sefyllfa Wareiddiol y Cymry (Five Articles); Golygiadau Crefyddol Sir I. Newton; Golygiadau Crefyddol John Milton. 1860, Sefyllfa Wareiddiol y Cymry (Six Articles). 1861, Sefyllfa Wareiddiol y Cymry (Five Articles); Madoc ab Owen Gwynedd. [Gellir cael rhifynau o'r hen YMOFYNYDD, ond anfon at y Golygydd presenol.]

PAHAM YR YDYM YN UNDODIAID?

MR. EVANS.—Bore da i chwi, Mr. Beynon; yr oedd yn dda genyf eich gweled yn ein heglwys ni heddyw.

MR. BEYNON.—Diolch yn fawr, Mr. Evans; yr oedd yn hyfrydwch genyf gael y cyfleusdra i wrandaw ar eich gweinidog rhagorol.

E.—Nid oeddwn yn dysgwyl eich clywed yn siarad mor uchel am bregethwr iawnffyddol.

B.—Nid oes un gwrthwynebiad genyf i wrando pregeth Grist'nogol dda gydag un enwad.

E.—Yr wyf yn methu a chyfrif sut yr ydych chwi wedi myned yn Undodwr, Mr. Beynon. Mae eich perthynasau i gyd, os nad wyf yn camsynied, yn Drindodiaid.

B.—Esgusodwch fi, Mr. Evans, ond y pregethiad o Galfiniaeth bur ddarfu fy arwain i gyntaf i wneuthur ymchwiliad i'r dduwinyddiaeth hono drosof fy hun, a thrwy ddefnyddio fy rheswm a'm synwyrau, cefais fy arwain i gofleidio Undodiaeth.

E.—Yr wyf yn ofni, Mr. Beynon, eich bod yn ymddiried gormod i reswm dynol. Mae rhai pethau nas gallwn ni eu hesponio, ond teimlwn eu bod yn wir. Carwn wybod paham y darfu i chwi gefnu ar ffydd eich tadau.

B.—Mae amryw wahaniaethau pwysig rhwng Undodiaeth a Chalfiniaeth. Nid alla' i byth gredu y gallai Duw holldoeth a pherffaith arfaethu rhan bennodol o'i blant i farwolaeth dragwyddol, tra mae rhan arall, dim gwell nâ hwythau o ran natur, wedi eu rhagarfaethu i fywyd tragwyddol.

E.—Allwn ni ddim deall y rheswm o hyny, ond y mae pawb Crist'nogion iawnffyddol, dybiaf, yn cydsynio ar hyny. Nid yw ein gweinidog ni yn pregethu llawer o hyny.

B.—Ond y mae yn y gredo, fel y gwyddoch. Fel hyn, neu rywbeth tebyg, mae'r gredo:—Trwy ordeiniad Duw, ac er amlygiad o'i ogoniant, mae rhai dynion ac angylion wedi eu harfaethu i fywyd tragwyddol, ac ereill wedi eu rhagordeinio i farwolaeth dragwyddol, ac y mae'r nifer o bob dosparth wedi eu sefydlu er creadigaeth y byd, ac yn annghyfnewidiol. Pwnc arall yn eich credo nas gallaf ei dderbyn yw hwn: fod pawb dynion wrth natur yn gwbl ac yn hollol lygredig. Addefaf yn rhwydd fod pawb dynion yn cael eu geni â nwydau a chwantau ganddynt, y rhai ydynt yn eu harwain yn mhell oddiwrth lwybr dyledswydd; ond os ydym bawb wrth natur yn gwbl ac yn hollol lygredig, ni wnaethai'r Iesu byth ddywedyd fel y gwnaeth, heb nag os nag ond, pan yn llefaru am blant bach, "eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.'

E.—Gwn fod ein gweinidogion ni yn credu yn athrawiaeth y "llwgr gwreiddiol," fel ei gelwir,—hyny yw. yn llygredigaeth gwbl ac hollol yr hil ddynol; ond nid llawer ddywedir am hyny yn y pwlpid. Ond pwnc mwy pwysig y dyddiau presenol yw, Pwy ydyw Iesu Grist? Dywedir wrthym eich bod chwi yr Undodiaid yn credu mai dyn yn unig ydyw. Mae genych syniadau sefydlog ar y pwnc, digon tebyg.

B.—Oes, ac yr ydym, yn ngoleuni y Testament Newydd fel arweinydd, yn cytuno ar y prif beth mewn perthynas i'w gymmeriad a'i briodoleddau. Yr ydym bawb yn credu mai nid Duw ydyw, mai nid bod gogyfuwch â Duw ydyw, ac ar hyn o beth mae genym ei adroddiad pendant ef ei hunan; ac er gwaethaf yr hyn sydd yn cael ei ysgrifenu a'i ddywedyd gan ereill, ystyriwn fod ei eiriau ef yn meddu yr awdurdod uwchaf. Cymmerodd ofal ddigon i ddywedyd, "Y mae fy Nhad yn fwy nâ myfi." "Nis gallaf fi wneuthur dim o honof fy hun." "Myfi yw y winwydden, a'm Tad yw y llafurwr." Megys y mae deall yr hwn sydd yn gwrteithio y planhigyn yn llawer uwch nâ'r planhigyn, felly mae'r Iesu wedi ein dysgu i gredu fod Duw yn llawer uwch nag ef. Anhawdd fuasai defnyddio cymhariaethgryfach nâ'r uchod.

E.—Ond os nad yw'r Iesu yn Dduw, pa fodd y gallasai wneuthur iawn anfeidrol?

B.—Nid wyf yn gwybod fod genym ddim yn yr Ysgrythyrau yn dysgu ei fod wedi gwneuthur iawn felly erioed. Ond feallai yr esponiwch beth yr ydych yn feddwl wrth y gair?

E.—Nid wyf yn dysgwyl y bydd un gwahaniaeth rhyngom ar y pwnc hwn. Yr iawn mawr a wnaed gan yr Iesu oedd y cyflwyniad o hono ei hun, fel aberth, i ddofi llid Duw digofus, a'i wneuthur yn alluadwy neu yn bossibl iddo i achub troseddwyr y gyfraith, trwy roddi maddeuant rhad iddynt. Heb dywalltiad gwaed nis gall fod maddeuant pechodau. Efe a dalodd y ddyled, ac a gymmododd y Tad â ni, nid yn unig am bechod neu euogrwydd gwreiddiol, ond hefyd am drosedd gweithredol.

B.—Ah, fy nghyfaill, mae ein syniadau ar y pwnc hwn mor bell oddiwrth eu gilydd ag ydyw pegynau y ddaear. Nis gallaf gredu y gwnelai Tad holl-ddoeth, holl-berffaith, ac holl-gariadus, ofyn gan un o'i blant, yr unig berffaith, a elwir unig-anedig Fab Duw, i farw ar y groes, i foddloni ei ddigofaint a throi ymaith ei lid. Mae Duw wedi bod erioed yn Dad i ni—erioed wedi ein caru gyda chariad anfeidrol mwy nag y gallwn ni ei garu Ef.

"Mae'n Gâr i'n dilyn yn ddibaid,
Gan weini'r hyn a wel yn rhaid."

Na, fy nghred i yw, a chred yr Undodiaid gan mwyaf, mor bell ag y gwn i, mai dyben cenadwri'r Iesu oedd i'n cymmodi ni â Duw, ac â'i gyfreithiau; i'n hargyhoeddi fod Duw yn Dad i ni; ei fod yn fwy parod i faddeu i ni nag yw rhieni daearol i faddeu i'w plant; iddo ddyfod i geisio ac i achub y rhai colledig, i ddyrchafu'r hiliogaeth, i ddatguddio'n fwy amlwg nag a wnaethpwyd erioed o'r blaen dadoldeb Duw a brawdoldeb dyn. Yn awr, Mr. Evans, a ydych chwi yn wir yn credu fod Duw wedi ethol er creadigaeth y byd ryw nifer pennodedig i gael eu hachub, a'i fod wedi dedfrydu y gweddill i golledigaeth dragwyddol?

E.—Ydwyf, y mae hynyna yn rhan o'n credo ni.

B.—Ac a ydych chwi'n credu hefyd i'r Iesu farw ar y groes fel Duw a dyn, fel Duw-ddyn, y ddau gyda'u gilydd, i gymmodi Duw â dyn? A ydych yn credu y pynciau yma oddiar eich bod wedi chwilio yr Ysgrythyrau drosoch eich hunan, a defnyddio eich rheswm yn yr ymchwiliad, neu ynte a ydych yn eu credu am eich bod yn eu cael wedi eu hysgrifenu felly yn nghredoau eich tadau, ac am fod eich gweinidog yn credu felly?

E.—I fod yn onest i chwi, Mr. Beynon, rhaid i mi addef nad wyf wedi ymresymu llawer ar y pynciau yma, oblegyd, fel y dywedais o'r blaen, yr wyf wedi fy nysgu i beidio ymddibynu ar reswm dynol, ond ymddiried i addysgiadau y rhai a wyddant fwy nâ mi, a lle nad wyf yn gweled yn amlwg i wneuthur defnydd o'm ffydd.

B.—A ydyw yn bossibl nad ydych erioed wedi holi i mewn i wirionedd credo sydd mor anhawdd i gymmodi un rhan o honi â'r llall, a'r un a gyfeiriais eich sylw ati. Yr ydych yn proffesu credu fod rhan o'r hil ddynol wedi eu dewis i fywyd tragwyddol gan y Creawdwr er creadigaeth y byd, a'r gweddill wedi eu dedfrydu i farwolaeth dragwyddol. Ac er sicrhau hyn o beth, y maent oll yn hollol ac yn gwbl lygredig, ac yn analluog i wneuthur dim drostynt eu hunain, heb gyfryngiad neillduol Duw ar ran yr etholedigion. Ac ar ol i filoedd a miloedd o flynyddoedd basio heibio, nis gallai y nifer bychan yma o etholedigion gael eu hachub, ddim hyd y nod trwy nerth yr Hollalluog, heb yn gyntaf i aberth anfeidrol a dwyfol gael ei wneuthur i Dduw'r Tad gan Dduw'r Mab, i foddloni cyfiawnder y gyfraith a wnaed gan Dduw'r Tad, ac i gymmodi Duw tuag atom ni. Os oedd Iesu, gan hyny, yn Dduw, mae'n canlyn yn angenrheidiol i'r Hollalluog, yn lle anfon cenad, ddyfod ei hunan ; ac i foddloni ei hunan, wneuthur aberth o hono ei hunan, fel y gallai, yn gysson â'i ddeddfau, ac mewn cydymffurfiad â'i amcan gwreiddiol, faddeu i'w blant crwydredig, y rhai trwy weithredoedd, nid eiddo ei hunain, oeddynt, ac ydynt, yn gwbl lygredig. Nid wyf yn synu nad ydych yn beiddio ymddiried i'ch rheswm a'ch synwyr cyffredin i esponio y fath grediniaeth. Ond yr wyf yn rhyfeddu fod dynion o addysg, dynion goleuedig, gweinidogion gonest a Christ'nogol, fel eich eiddo chwi Mr. Evans, yn peidio dyfod allan ac ymwadu ag athrawiaeth mor gwbl annghysson â rheswm a synwyr cyffredin.

C. R.

A ELLWCH CHWI FFORDDIO?

A ELLWCH chwi fforddio gweithio trwy'r dydd, a darllen a myfyrio, neu ddilyn ffolinebau cymdeithas trwy'r nos, ac felly dreulio allan eich bywiogrwydd, a dyhysbyddu eich nerth, a dwyn eich hunan yn gynt nâ phryd i glefyd, a gwendid, a henaint?

A ellwch chwi fforddio bwyta yn gyflym, ac yna rhuthro allan at eich gwaith, neu eich gorchwyl, gan symud ymaith y *nervous energy* oddiwrth y peirianau treuliad at yr ymhenydd a'r giau, ac felly dwyn y cyfryw beirianau i annrhefn, yr hyn a ganlynir mewn ychydig flynyddau gan y clefyd a elwir *dyspepsia*, yr hwn a fydd yn haint i'ch gwneuthur yn druenus am flynyddau, ac o bosibl am eich oes ?

A ellwch chwi fforddio byw yn fras ac yn foethus ar fwyd wedi ei dymheru yn uchel, am fod chwant annaturiol (*artificial appetite*) yn cael ei foddloni felly, yr hyn a wna'r *gout*, *dyspepsia*, neu *apoplexy*, yn agos yn beth sicr cyn eich bod yn cyrhaedd canol oed ?

A ellwch chwi fforddio cyflawni hunanladdiad trwy foddio eich chwantau a'ch nwydau, gan gymmeryd arwyddair yr ynfyd, "Bywyd byr a llawen."

A ellwch chwi fforddio byw yn gyflym, gwisgo'n uwch nag y mae'ch incwm yn ganiatau, a dwyn eich hunan i warth a gwaradwydd ?

A ellwch chwi fwrdâ'r ymadrodd a chwel dyfnau, ac felly gwnaeth Mr. Bridges, M. A., Vicar St. Thomas, Llundain, brregeth ar "Effeithiau Tragwyddol," neu rywbeth tebyg. Nid oes un gair yn sôn am effeithiau tragwyddol yn y testyn. Ond gwnaeth y pregethwr ei gyfiawnhau ei hun drwy ddweyd, "Ni allwn ddeall ystyr y geiriau hyn ond fel yn golygu effeithiau tragwyddol." Ac felly gwnaeth Mr. Bridges ei ddyfarniad ar y testyn. Ac nid oes dim amheuaeth na fydd yr effeithiau hyn yn dragwyddol i'r rhai sydd yn myned iddynt. Ond a ydyw'r testyn yn dysgu hyny? Dyna'r cwestiwn. Ac nid oes dim ateb ond trwy ddarllen y testyn yn ei gyd-destun. Ac yn ol hyny, nid yw yn dysgu dim o'r fath beth. Mae'n dysgu yn eglur fod yr effeithiau yn rhai presenol. Mae'n gosod gwyn ar y ddalen i ni allu profweth a ydyw'r effeithiau hyn yn dragwyddol ai peidio. Ac yn ol hyny, nid yw'r testyn yn dysgu dim o'r fath beth. Yr ydym yn gwybod na all Mr. Bridges ddweyd hyny gan ei fod Dduwinydd, ac ysgrifenodd yr hyn sydd uchod. Ond yr ydym yn gobeithio yn ddiffuant na fydd yr effeithiau hyn yn dragwyddol i neb. Ond os ydyw'r testyn yn golygu yr effeithiau hyn yn dragwyddol, yna nid oes dim gobaith i neb ddyfod yn ddedwydd yn dragwyddol. Ac yn ol hyny, nid oes dim gobaith i neb ddyfod i'r nefoedd. Ac felly nid oes dim gobaith i neb ddyfod yn gyfiawn yn ngolwg Duw. Ac felly nid oes dim gobaith i neb ddyfod yn gyfiawn trwy ffydd yn aberth iawnol Crist. Ac felly nid yw'r holl beth yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl bregethau a weinyddir yn y byd yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Feibl yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Gristionogaeth yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl grefydd yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl fyd yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl greadigaeth yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Dduwdod yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Dduwdod yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Dduwdod yn ddim ond celwydd.

OFFEIRIAD AR UNDODIAETH.

Yn nghyfarfodydd yr Undodiaid, y Parch. J. Bridges, M. A., Vicar St. Thomas, Llundain, bregeth ar "Effeithiau Tragwyddol," neu rywbeth tebyg. Nid oes un gair yn sôn am effeithiau tragwyddol yn y testyn. Ond gwnaeth y pregethwr ei gyfiawnhau ei hun drwy ddweyd, "Ni allwn ddeall ystyr y geiriau hyn ond fel yn golygu effeithiau tragwyddol." Ac felly gwnaeth Mr. Bridges ei ddyfarniad ar y testyn. Ac nid oes dim amheuaeth na fydd yr effeithiau hyn yn dragwyddol i'r rhai sydd yn myned iddynt. Ond a ydyw'r testyn yn dysgu hyny? Dyna'r cwestiwn. Ac nid oes dim ateb ond trwy ddarllen y testyn yn ei gyd-destun. Ac yn ol hyny, nid yw yn dysgu dim o'r fath beth. Mae'n dysgu yn eglur fod yr effeithiau yn rhai presenol. Mae'n gosod gwyn ar y ddalen i ni allu profweth a ydyw'r effeithiau hyn yn dragwyddol ai peidio. Ac yn ol hyny, nid yw'r testyn yn dysgu dim o'r fath beth. Yr ydym yn gwybod na all Mr. Bridges ddweyd hyny gan ei fod Dduwinydd, ac ysgrifenodd yr hyn sydd uchod. Ond yr ydym yn gobeithio yn ddiffuant na fydd yr effeithiau hyn yn dragwyddol i neb. Ond os ydyw'r testyn yn golygu yr effeithiau hyn yn dragwyddol, yna nid oes dim gobaith i neb ddyfod yn ddedwydd yn dragwyddol. Ac yn ol hyny, nid oes dim gobaith i neb ddyfod i'r nefoedd. Ac felly nid oes dim gobaith i neb ddyfod yn gyfiawn yn ngolwg Duw. Ac felly nid oes dim gobaith i neb ddyfod yn gyfiawn trwy ffydd yn aberth iawnol Crist. Ac felly nid yw'r holl beth yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl bregethau a weinyddir yn y byd yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Feibl yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Gristionogaeth yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl grefydd yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl fyd yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl greadigaeth yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Dduwdod yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Dduwdod yn ddim ond celwydd. Ac felly nid yw'r holl Dduwdod yn ddim ond celwydd.

y pechadur. Os oes pwys i'w roddi ar y Beibl yn ei ystyr amlwg ac agored, mae ein golygiadau ni ar Dduw a Christ ac iachawdwriaeth yn wir, a golygiadau Mr. Rogers yn hollol annaturiol a diawdurdod. Yr ydym yn meddwl ei fod yn cam-ddeall y testynau ag y mae'n gosod pwys arnynt; mae'n rhoddi ystyr iddynt sydd yn wrthwynebol i yspryd y Beibl, ac i ddeng mil o destynau ereill. Cymerwn mewn llaw i edrych i mewn i'w brfion mewn erthygl arall.

Christian Freeman.

MAB MORGAN JONES A'R BASGED HOELION.

Yr oedd gan Morgan fab, ac yr oedd yn cael gofid mawr gydag ef. Enw y mab oedd Tamar. Yr oedd Morgan wedi cynghori, a bygwth, a chyfarwyddo llawer ar Tamar, o bryd i bryd; ond ymddangosai y cwbl megys yn ofer. Nid wyf yn meddwl fod Tamar ag un bwriad ganddo i fod yn ddrwg: nid oedd yn ddrwg yn wirfoddol. Rhy anystyriol yr oedd; ac fel llawer ereill, yr oedd braidd yn anmhossibl i ddetfroi ystyriaeth ynddo. Wrth gwrs, allwn ni ddim dysgwyl hen ben ar ysgwyddau ifanc; na dysgwyl i'r oen fod mor gall â'r ddafad, er cymmaint ei thuedd ar brydiau i roddi gwersi iddo i bori yn iawn, Fel hyn darfu i Morgan un diwrnod geisio rhoddi gwers i Tamar: galwodd efato, a dywedodd, "Dyma forthwyl, a basgedaid o hoelion, yn awr, yr wyf am i chwi, bob tro y cyflawnwch weithred ddrwg, i yru un o'r hoelion yma i mewn i'r wal hon." Ac meddai Tamar,

"O'r goreu nhad, mi wnaf."

Cyn hir, daeth Tamar at ei dad, a dywedodd, "Mae'r fasged yn wag. Yr wyf wedi gyru'r hoelion i gyd i'r wal. Deuwch a gwelwch.

Aeth ei dad gydag ef, a gwelodd y wal yn ddu gan hoelion, a dywedodd wrth ei fab, "Tamar anwyl, a ydych wedi bod yn euog o weithred ddrwg am bob un o'r hoelion yma?"

"Ydwyf, nhad," meddai Tamar.

"Wel, wel," meddai'r tad yn drist iawn, "rhyfedd mor ddrwg yr ydych, Tamar bach. A wnewch chwi ddim ceisio troi dalen newydd a byw'n well?"

Aeth Tamar yn fud, ond wedi ychydig ddystawrwydd, dywedodd, "Mi dreiaf, nhad. Yr wyf wedi bod yn fachgen drwg iawn, mi dreiaf bod yn well bachgen yn y dyfodol."

Yna dywedodd ei dad, "Hwriwch y pinsiwrn yma, ac am bob gweithred dda a gyflawnwch, tynwch un o'r hoelion allan, a gosodwch hi yn y fasged."

Yn mhen ychydig wythnosau daeth y bachgen at ei dad etto, a dywedodd, "Dewch etto, nhad, a gwelwch yr hoelion i gyd yn y fasged. Am bob gweithred dda a gyflawnais, tynais hoelen allan. Chwi welwch fod y fasged yn llawn etto!"

"Yr wyf yn falch ac yn llawen iawn o hyny, fy mab; ond gwelwch fod y *tyllau* i gyd ar ol!"

Peidiwn gwneuthur drwg, dysgwn wneuthur daioni.

Y Bardd Pope.—Dyn bychan ydoedd Pope, crwca o gorff, a digon tebyg, crwca yn rhy fynych o gymmeriad hefyd; etto yr oedd yn ddyn o dalentau mawrion a dysglaer, ac yn meddu ar lawer o ragoriaethau moesol. Dengys y *teimlad iawn*, yn ddiamheu, mewn llythyr o'i eiddo at Swift, yn yr hwn y dywed, "Yr wyf yn gyfoethog ddigon, ac yn gallu fforddio i roddi i ffwrdd £100 yn y flwyddyn. Ni fynwn i ymdreiglo dros y ddaear heb wneuthur ychydig dros wirioneld. Mwynhaf y pleser o roddi yr hyn a rodlaf trwy ei roddi tra yn fyw, a thrwy weled arall yn ei fwynhau. Pan yn marw, byddai cywilydd arnaf i adael digon ar fy ol i wneuthur *monument*, a bod cyfaill mewn angen ar bwys.

Gohebiaethau.

TYSTEB Y PROFFESWR EVANS, CAERFYRDDIN.

At Olygydd yr YMOFYNYDD.

Syr,—Wrth ysgrifenu fy llythyr ar y penawd uchod yn y rhifyn diweddaf o'r YMOFYNYDD, yr wyf am i'ch darllenwyr lluosog gadw mewn cof nad oedd ymgom o gwbl wedi bod rhyngof â'r Proffeswr yn nghylch y dysteb yr y'm fel Undodiaid Cymreig ar fwriad roddi iddo. Ysgrifenais ef er dangos parch i un o'n gweinidogion. Yr wyf yn dywedyd hyn mewn atebiad i amryw o ofyniadau ag sydd wedi cael eu rhoddi i mi. Gan ddymuno pob llwyddiant i'r amcan mewn golwg, ydwyf yn gywir,

Caerfyrddin. DANIEL AP IFAN.

NODYN D. AP IFAN.

Syr,—Gyda golwg ar gynnygiad caredig D. ap Ifan yn rhifyn Chwefror, caniatewch i mi sylwi yn

1. Na wyddwn i ddim am dano, fel y mae yn hysbys i'r awdwr, hyd nes y gwelais ef yn yr YMOFYNYDD. Er nad wyf fi yn ceisio nac yn disgwyl dim gan neb, ar yr un pryd mae yn gyssur bob amser i ddyn wybod fod brodyr yn cydymdeimlo ag ef; ac y mae rhai amgylchiadau pan y mae cydymdeimlad brodyr yn neilluol o werthfawr.

2. Fod yn flin iawn genyf am yr Eglwysi gweinion ag y gwnaethum fy ngoreu, hyd ag y gallwn, i'w gwasanaethu. Gobeithiaf na lwfrhaut, ond y bydd iddynt ymwroli yn nerth Crist Iesu etto, fel gynt, i gario yr achos yn y blaen, gan osod eu hyder o hyd yn y Tad Nefol, yr hwn y mae ei ragluniaeth tu hwnt i gyrhaedd dyn, ac y gwnaut gadw yn wastadol yn en cof eiriau cysurlawn yr Athraw Mawr, "Nac ofna, braidd bychain, canys rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi y deyrnas. Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt."

3. Fod ein Cyfarfodydd Chwarterol a Blynyddol yn gweini llawer mwy o gyssur ac adeiladaeth i mi, nag a allasai fy mhresenoldeb fod o fudd iddynt hwy. Gobeithio nad yw y pleser hwnw ddim heibio etto i gyd. Ydwyf, yr eiddoch yn garedig,

Caerfyrddin, Chwef 15. D. L. EVANS.

TYSTEB Y PARCH. PROFFESSWR EVANS.

Syr,—Yr oeddwn yn teimlo yn falch i weled ysgrif yn yr YMOFYNYDD diweddaf, gan Daniel ap Ifan, yn galw sylw at dysteb y Parchedig D. L. Evans, Caerfyrddin. Tybiaf ei fod yn wir deilwng o honi; gwelir ei eisieu yn fawr yn Rhydyparc, yn neilluol ar suliau y Cymmun. Anaml yn y blynyddoedd a aethant heibio, y buasai Mr. Evans yn absenol o honynt, a hyny am yn nesaf i ddim tal. Yn awr, pa le mae St. Clears, yr Onenfawr, a llawer o fanau ereill? Dangoswn ein parch i Mr. Evans. Pwy fydd yn Drysorydd, &c.? Cymmeraf fi yr hyfdra o gasglu yn Rhydyparc, a'i hanfon iddo; gobeithio y gwel yr Eglwysi ereill y peth yn deilwng; tra mae y person yn fyw, ac nid wedi iddo farw mae dangos parch iddo. Trueni meddwl am lawer o hen weinidogion yr enwad Undodaidd, am y llafur yr aethant drwyddo, wrth dramwy o fan i fan heb gael ond ychydig iawn o dâl am eu gwaith. Pa le mae y Parch. David Beynon, St. Clears, a'r ffyddlawn Titus Evans, Caerfyrddin? Y maent wedi huno yn yr angau er ys amser maith bellach. Wrth derfynu hyn o anerchiad gostyngedig, crefwn ddatgan mewn geiriau, y parch a'r edmygedd uchaf o Mr. Evans; pa le bynag y byddo ei dreigliad yn y dyfodol, nawdd a gofal ein Tad Nefol fyddo gydag ef; hir fywyd, dedwydd a llwyddiannus a gaffo; a phan derfyno ei yrfa yma yn y byd, bydded iddo gael mynediad gogoneddus i draethau digwmmwl gwynfyd tragwyddol; hyn yw gweddi daer ei ostyngedig a'i ymlynol gyfeillion yn eglwys fechan Rhydyparc. Yr eiddoch, &c.,

R. R.

Congl yr Holiedydd.

1. A fydd rhyw un cystal a datgan i mi y gwahaniaeth (1) rhwng crefydd a duwinyddiaeth; (2) rhwng crefydd a moesoldeb; ac (3) rhwng ffydd a chredo?—UNDODWR.

2. Yn yr erthygl ar Jeremiah Horrocks yn y rhifyn diweddaf, tud. 279, ceir y geiriau yma; "Daeth y flwyddyn hirddysgwyliedig o'r diwedd—1639, a daeth y dydd hefyd *yn agos i derfyn y flwyddyn hono*." Pa mor agos i derfyn 1639 oedd y dydd?

GWYDION AB DON.

"Dulce desipere in loco."—*Horatius.*

Mr. Gol.—Gwn fod rhai ysgolorion dysgedig yn ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, ac mi ddymunwn arnynt, pan fyddo hamdden yn caniatau, roddi allwedd a wna agor y clo sydd ar y penillion canlynol. Ymddangosant yn debyg i *Latin*, ond nid wyf yn meddu ar ddigon o wybodaeth Ladinaidd i'w hesponio. Gyda help tipyn bach o ddychymyg gall dyn ambell bryd glywed yr *Harmonium*, neu yr *Organ* yn canu Cymraeg yn groyw:

I Dad y trugareddau i gyd
Boed mawl gan holl drigolion byd, &c.

Pryd arall, pan fyddo hwyl y dyn yn wahanol, feallai bydd y geiriau yn swnio'n Seisnig; fodd bynag, wrth fwmial canu y penillion canlynol ar ryw dôn *sing-song*, mae ambell i linell yn dyfod allan i'm dychymyg i, yn berffaith Seisnigaidd, er enghraifft y llinell gyntaf:

O, Mary heave a sigh for me, &c.

Yr eiddoch, &c.,
MENTOR.

"TONIS AD RESTO MARE."

"O Mare oeva si forme;
Forme ure tonitru;
Iambicum as amandum
Olet Hymen promptu;
Mihi is vetas an ne se,
As humano erebi;
Olet mecum marito te
Or *eta beta pi*.

Alas, plano more meretrix
Mi ardor vel uno;
Inferiam ure artis base,
Tolerat me urebo.
Ah me ve ara silicet
Vi laudu vimin thus?
Hiatu as arandum sex—
Illuc Ionicus.

Heu sed heu vix en imago,
My misses mare sta;
O cantu redit in mihi
Hibernas arida?
A veri vafer heri si,
Mihi resolves indu:
Totius olet Hymen cum—
Accepta tonitru." N. & Q.

Marwgofion.

Rhagfyr 22ain, 1874, yn 24 oed, Mrs. Davies, anwyl wraig Mr. Davies, Felindre, Pencarreg ac unig ferch y diweddar J. Davies, o'r un lle. Ar y dydd appwyntiedig, daeth torf luosog iawn o berthynasau a chyfeillion, i hebrwng ein chwaer i'w bedd yn mynwent Cae'r Onen. Cyflawnwyd gwahanol ranau y gwasanaeth gan y Parchn. W. Oliver (M.), Llanddewi, R. C. Jones, Llanbedr, J. Jones (M.), Llanbedr, a phregethwyd yn y Capel, gan y Parch. D. Evans, B.A., Maesymeillion. Heddwch i lwch y marw, ac i feddyliau trallodedig ei phriod a'i pherthynasau.—R. C. J.

Rhagfyr 29ain, yn dri mis oed, Eleanor Margretta, merch fechan Mr. W. Jones, Crydd, Llanbedr. Gweinyddwyd ar ddydd ei hangladd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar; a gosodwyd y fechan i gysgu yn mynwent Eglwys Llanbedr.

Ion. 22ain, Mary, priod Wm. Williams, Cwmneol, Cwmaman, Aberdar, yn 73 oed. Dyodefodd gystudd am amser maith, a'r cwbl yn amyneddgar, dan alluog law ei Chrëwr doeth, ac ymfoddlonai i'w ewyllys Ef yn dawel. Y Mercher canlynol ymgynnullodd torf luosog o bell ac agos, i'w hebrwng i "dŷ ei hir gartref," a chyn cychwyn o'r tŷ, gwasanaethodd y Parch. W. James, B.A. ar yr achlysur, yna hebryngwyd y trancedig tua'r *Cemetery*, lle yr erys hyd y dydd olaf. Bu yn aelod yn yr Hendycwrdd am flynyddau meithion. Gadawodd ar ei hol hen wr parchus a diwyd, yn unig iawn, ond bydded i'w unigrwydd ei ddwyn i gofio llaw yr Hwn sydd yn llywodraethu, a bod y cyfan o'i law Ef yn deilliaw er lles ei blant.—E. C.

Ionawr 24,—Morgan, mab John a Gwenllian Bowen Alltwen, yn 2 flwydd oed, o'r *Scarlet Fever*. Claddwyd y bychan y dydd Mawrth canlynol, yn Gellionen, pryd y gweinyddwyd gan weinidog y lle.

Priodasau.

Mehefin 4ydd, 1874, yn Nghapel Gellionen, gan y Parch. J. Evans, gweinidog, a cherbron y Cofrestrydd, Mr. Evan Hopkins, Rock & Fountain Inn, Craig Cefnpark, â Miss Catherine John, Cwmclydach.

Rhif y gwlith o fendithion—i Evan,
A'i Efa gariadlon; [fwyniant
Bydded deliau llwythau llon,—mel-
I chwi a ddygant ddedwyddwch ddigon.

Hon oedd y briodas gyntaf a weinyddwyd yn Gellionen; anrhegwyd y pâr ieuanc â Beibl tlws gan y gweinidog.

Ionawr 7fed, 1875, yn yr un lle, gan y Parch. J. Evans, gweinidog, a cherbron y Cofrestrydd, Mr. Lewis Hopkins, Cythylyd, â Miss Hannah John, Glyncoch, Cwmclydach.

Y coeth alaw o Cythylyd,—mynodd
Gael meinwen nefolfryd;
Byd o ha' i Hannah o hyd,
A'i haneilydd anwylyd.

Hirfaith fyddo eich gyrfa—a nwyfiant
Y nef yn eich trigfa;
Rhes o blant yr oes heb bla,
A moethus fyd esmwytha.

D. Onllwyn Brace.

Barddoniaeth.

ENFYS, GWLAW, A GWLITH.

Gwel y gwlithyn tyner
Sydd wrth orchymyn Duw,
Yn bywiogi pob blodeuyn,
Sirioli pob peth byw.

Gwel y gwlaw yn disgyn
Hyd lethrau'r mynydd draw;
Gwel y cymyl yn gwasgaru
Bendithion ar bob llaw.

Gwel yn brophwyd etto,
Yr enfys gain a ddaw,
I wasgaru 'i phrydferth liwiau
Dros lethri'r bryniau draw.

Duw erioed sydd ffyddlon,
A ffyddlon bydd E' byth;
O! boed diolch yn mhob calon,
Am enfys, gwlaw, a gwlith.

T.

NYNI Y'M WIRFODDOLIAID.

Nyni y'm Wirfoddoliaid yn myddin Brenin nef,—
Ymarfogi wnawn dan ei faner Ef.
Y mae'r gelyn ar y maes, ac mae'i fyddin o bob tu—
Ymwrolwn, a gorchfygwn y llewaidd lu!

Cydgan.

Uned plant y ddaear â'n byddin fawr ei bri.
Iesu Grist ei hunan yw ein harweinydd ni;
Ymladd wnawn â phechod—ymdrech chwerw fydd;
Ond â'r fath Arweinydd, ni gawn gario'r dydd!

Nid ymladd am ogoniant y ddaear hon a wnawn,—
Siomedigaeth brudd yn yr oll a gawn;
Ond am goron anllygredig, a gedwir gan Dduw nef
I'r ffyddloniaid o bob gradd yn ei fyddin Ef.

Cydgan.

Uned plant y ddaear â'n byddin fawr ei bri.
Iesu Grist ei hunan yw ein harweinydd ni;
Ymladd wnawn â phechod—ymdrech chwerw fydd;
Ond â'r fath Arweinydd, ni gawn gario'r dydd!

J.' H. A.

JENKIN HOWELL, AGERDD-ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

Mrs. W., Gracechurch Street, London ; Mrs. R., Ysguborfawr ; J. J., Quakers' Yard ; P. R., Treorky ; W. T., Mill Street ; D. L. M., Brynaman ; R. E., Cardiff ; Miss. J., Cellan ; D. E., Rhymney ; J. L., Dowlais ; W. H., Cefn ; E. T., Bwlch ; D. M., Treorky ; J. R., Cardiff ; E. J., Carmarthen ; T. J., Maesygarn ; J. J. Ty'rdref; W. J., Pitcot Cottage.

Dylasem fod wedi dweyd o'r blaen fod tâl yn ddyledus gyda'r rhifyn diweddaf, gan y dywedir nad yw lliw yr amlen yn ddigon o awgrym.

A

FUNERAL SERMON,

ON THE LATE

THOMAS STEPHENS, ESQ.,

BY

N. R. WILLIAMS, Minister of Twynyrodyn Chapel, Merthyr Tydfil,

PRICE SIX PENCE.

Copies can be had by applying to the Rev. N. R. WILLIAMS, Merthyr.

"CRWTH DYFFRYN CLETTWR,"

SEF

GWEITHIAU BARDDONOL AMNON.

Mae rhai copiau ar law o'r llyfr uchod, ac anfonir hwy yn rhad trwy y *post* am 2s. yr un, neu saith am bris chwech. Anfoner at Olygydd yr YMOFYNYDD.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnelir Cyfarfod Chwarterol Y Pasc yn Capel-y-bryn, Cwrtnewydd, ar y dydd diweddaf o Fawrth, a'r cyntaf o Ebrill. Dechreua'r gwasanaeth y dydd cyntaf am chwech y prydnawn, a'r dranoeth am ddeg y boreu. Y Pregethwr, y Parch. W. James, B. A. Pwnc y Gynnadledd :—*Beth yw'r awdurdod uchaf mewn pethau crefyddol?*

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½. ; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., Oxford Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,*—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.